# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Mehefin 2024

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Hybrid

Cofrestru cyn y cyfarfod (12:30 - 13:00)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

**Dogfennau atodol:**

### 2 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

(Tudalennau 1 - 34)

Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Amelia John, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Lorna Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Llywodraeth Cymru

Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd, Llywodraeth Cymru

Catrin Awoyemi, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch graffu cyffredinol - 26 Ebrill 2024

Papur tystiolaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a

Chyfiawnder Cymdeithasol

Briff Ymchwil

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

Dogfennau atodol:

## 4 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol : ystyried y dystiolaeth

Dogfennau atodol:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

26 Ebrill 2024

Annwyl Lesley,

Sesiwn gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet

Hoffai'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol eich gwahodd i sesiwn i graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet am 13:00 ar 17 Mehefin i drafod eich blaenoriaethau yn eich rôl newydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Er bod croeso i'r Aelodau ofyn cwestiynau ar unrhyw bynciau, roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at y pynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor a byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig i rai o'r cwestiynau isod.

Cydlynu materion trawsbynciol o fewn y portffolio

- Rydym yn awyddus i wybod rhagor am eich strategaeth ar gyfer mynd i'r afael yn effeithiol â materion trawsbynciol yn eich portffolio. Yn benodol, hoffem ddeall eich cynlluniau ar gyfer cydweithredu a chydlynu ag adrannau eraill y llywodraeth, yn ogystal â'ch dull o hyrwyddo materion ynghylch cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn fwy cyffredinol?
- Gweledigaeth Ysgrifennydd y Cabinet i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol o safbwynt y celfyddydau a diwylliant?
- Ble mae'r cyfrifoldeb am y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru bellach yn eistedd gan eu bod yn ymddangos fel pe baent wedi'u hepgor o'r rhestr o gyfrifoldebau gweinidogol ers yr ad-drefnu?

## Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

- Barn Ysgrifennydd y Cabinet am effeithiolrwydd yr Unedau fel y maent wedi'u cyfansoddi ar hyn o bryd, a'ch gweledigaeth ar gyfer eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y dyfodol?

## Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

- Blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer y gwaith hwn a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r gwaethaf yn gyntaf, gan gynnwys amserlenni prif gerrig milltir y rhaglen?

## Tlodi plant

- A fydd unrhyw newid i'r dull o fynd i'r afael â thlodi plant neu strategaeth Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gwaith yr Athro Rod Hicks i greu fframwaith gwerthuso, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer ei gwblhau?

## Siarter Budd-daliadau

- Pa ddull y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu ei ddefnyddio i roi'r Siarter Budd-daliadau ar waith?
- Sut mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu sicrhau y cydymffurfir ag ymrwymiadau'r Siarter ar draws pob corff cyhoeddus?

## Adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

- Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r **adroddiad** diweddar gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n tynnu sylw at fethu gan awdurdodau lleol â chyflawni eu rhwymedigaethau o ran darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr?
- Sut mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a godwyd yng nghanfyddiadau'r Ombwdsmon?

Sylwch fy mod yn rhannu'r llythyr hwn â Chadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn eich rôl newydd.

Yn gywir,



**Jenny Rathbone**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at: Delyth Jewell AS, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Papur tystiolaeth ar gyfer sesiwn graffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Cyn i mi fynychu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 17 Mehefin, gweler isod wybodaeth yn unol â'r meysydd diddordeb a amlygwyd gan y Pwyllgor.

**<u>Cydlynu materion trawsbynciol o fewn y portffolio</u>**

1. Mae diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a chyfiawnder cymdeithasol yn bileri rhyng-gysylltiedig, a phan gânt eu defnyddio'n effeithiol gallant helpu i greu cymdeithas fwy cynhwysol, teg a bywiog.  Rwyf am harneisio effaith gyfunol yr elfennau hyn i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig a chryfhau cydlyniant cymunedol.

2. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant, er enghraifft, yn cynnwys amcanion i sicrhau gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol ac mae'n galluogi cydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r strategaeth yn nodi ein hymrwymiad i sefydlu a chefnogi dull Cymunedau Ymarfer, gan ddarparu fforwm lle gall cydweithwyr o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru gymharu dysgu a rhannu arferion da.

3. Mae'r holl gynlluniau cydraddoldeb yn adlewyrchu ymrwymiadau trawslywodraethol. Mae gan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, er enghraifft, nodau a chamau gweithredu ar draws portffolios Gweinidogion. Mae defnyddio dulliau trawslywodraethol yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, a'r croestoriadedd rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyflawni camau gweithredu allweddol ym maes cyflogaeth, sgiliau, addysg, tai, iechyd ac ati.

4. Mae'r rhestr o gyfrifoldebau gweinidogol yn adlewyrchu fy holl feysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys cydraddoldeb a hawliau dynol. Felly, rwy'n falch o fod â chyfrifoldeb gweinidogol arweiniol dros gyflawni a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

5. Mae fy ngweledigaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol drwy lens diwylliant, gan gynnwys y celfyddydau, wedi'i nodi yn y strategaeth ddrafft "Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, 2024-2030", y gwnes i ei lansio ar gyfer ymgynghori arni ar 23 Mai. Mae'r strategaeth yn amlinellu set glir o flaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Yr uchelgais yw creu diwylliant sy'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol – diwylliant sy'n dod â chymunedau at ei gilydd.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barchu, diogelu a chyflawni hawl pawb i gael eu cynnwys yn deg yn y gweithgareddau diwylliannol o'u dewis. Rydym am i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli yn ein sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol. Rydym eisiau mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan – boed yn rhwystrau ffisegol, canfyddiadol neu ariannol - a chymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu.

7. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws ein sector diwylliant i gofleidio gwerthoedd democratiaeth ddiwylliannol ac i gefnogi hawliau diwylliannol. Mae cydnabod amrywiaeth a dehongliad diwylliant Cymru yn bwysig o ran galluogi mwy o fynediad at ddiwylliant, gan gynnwys y celfyddydau. Roedd Arolwg Sbotolau 2022 yn tynnu sylw at yr ystod eang o ddarpariaeth wedi'i thargedu ar draws amgueddfeydd lleol a chenedlaethol yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd â nodweddion gwarchodedig. Mae digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar oedran (pobl ifanc a phobl hŷn), siaradwyr Cymraeg a phobl sy'n byw gyda dementia sydd fwyaf cyffredin. Mae cydraddoldeb ar sail ethnigrwydd, anabledd, pobl LHDTC+, a rhywedd hefyd yn cael eu targedu'n gyson mewn rhaglenni. Mae'r Cynllun Grant Diwylliant ar gyfer Cyrff Llawr Gwlad wedi helpu dros 50 o grwpiau a sefydliadau diwylliannol i gael gafael ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid wedi galluogi'r grwpiau hyn i greu, ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n ystyrlon i'w cymunedau a'u grwpiau.

8. Mae ein cyrff hyd braich diwylliannol yn allweddol i'm gweledigaeth ar gyfer cefnogi cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Er enghraifft, mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi cyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. Mae ehangu ymgysylltiad yn ymwneud â Democratiaeth Ddiwylliannol - pobl a chymunedau yn cael eu grymuso i lunio a llywio eu profiadau celfyddydol a diwylliannol eu hunain ac i fod yn gyd-gynhyrchwyr a chyd-grewyr yn y celfyddydau a diwylliant sy'n adlewyrchu eu profiadau bywyd.

9. Hefyd, mae ein llyfrgelloedd lleol yng Nghymru ar agor ac yn rhad ac am ddim i bawb. Yn ogystal â llyfrau, cylchgronau a phapurau newydd, mae llyfrgelloedd yn darparu mynediad at wi-fi ac offer TG i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, ac mae staff y llyfrgell yn darparu cymorth a chefnogaeth i bobl nad ydynt yn ddigon hyderus i gael gafael ar wasanaethau digidol. Roedd llawer o lyfrgelloedd hefyd yn darparu 'mannau cynnes' i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw. Mae llyfrgelloedd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i blant a theuluoedd, gofalwyr a phobl sy'n profi unigrwydd, gan gynnwys ffoaduriaid a mudwyr. Er enghraifft, mae Llyfrgell Ganolog Abertawe yn 'llyfrgell noddfa'. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu pobl yn y system lloches, gan gynnig cefnogaeth a chyfleoedd cyfranogi a chyfrannu at ddiwylliant o groeso yn y gymuned ehangach. Mae gwobr y Llyfrgell Noddfa yn cydnabod ac yn dathlu'r llyfrgelloedd sy'n mynd yr ail filltir i ddangos undod a chroeso.

## Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

10. Sefydlwyd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ym mis Ionawr 2022 fel ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu.

11. Gweledigaeth yr Unedau Tystiolaeth yw gwella argaeledd, ansawdd, manylder, a hygyrchedd tystiolaeth cydraddoldeb i alluogi llunwyr penderfyniadau ledled Cymru i ddatblygu polisïau mwy gwybodus a mesur eu heffaith. Felly, mae llawer o brosiectau'r Unedau Tystiolaeth yn rhai hirdymor ac yn ceisio gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cydraddoldeb yn sylfaenol.

12. Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi ymrwymo i gyd-gynhyrchu, lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol, wrth ddatblygu tystiolaeth ar gydraddoldeb. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn gweithio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol a'r rheini sy'n defnyddio tystiolaeth cydraddoldeb i ddeall eu hanghenion am ddadansoddiad a thystiolaeth er mwyn helpu i siapio'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei blaenoriaethu a'i lledaenu. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn annog pobl a sefydliadau i gymryd rhan yn y gwaith o lunio a chyflwyno eu rhaglenni tystiolaeth a phrosiectau ymchwil.

13. Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi'u sefydlu a'u cryfhau drwy recriwtio staff a datblygu a chyhoeddi'r Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb. Maent bellach yn eu hail flwyddyn, gyda nifer o brosiectau ar waith a/neu wedi cael eu cyflawni. Ym mlwyddyn lawn gyntaf yr Unedau Tystiolaeth (2023-24), maent wedi cefnogi llunio polisïau ac wedi darparu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau polisi, er enghraifft, cynnal dadansoddiad ychwanegol o'r Cyfrifiad gan ddarparu dadansoddiad o holl ddata allweddol y Cyfrifiad yn ôl ethnigrwydd, sy'n ganolog i fesur effaith y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

14. Mae lefel tlodi tanwydd yng Nghymru'n peri pryder mawr ac mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wella bywydau'r rheini sydd mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd.

15. Y ffordd orau o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yw cael mwy o arian ym mhocedi pobl. Mae'n amlwg bod gan lywodraeth y DU rôl allweddol drwy'r system fudd-daliadau a gallwn wneud ein rhan i wella mynediad at fudd-daliadau a chynyddu incwm drwy fentrau fel Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi. Rydym yn cyflawni yn erbyn ein cynllun, Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd 2021 – 2035 a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu targedau interim sy'n seiliedig ar effeithlonrwydd ynni ac sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf.

16. Ers mis Mehefin 2022, rydym wedi dyrannu dros £5.5m o gyllid i alluogi'r Sefydliad Banc Tanwydd i gyflwyno cynllun Talebau Tanwydd a Chronfa Gwres cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi darparu cymorth i aelwydydd cymwys sy'n talu ymlaen llaw am eu tanwydd ac sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu. Mae hyn yn cynnwys darparu talebau tanwydd i gartrefi sydd â

mesuryddion rhagdalu a danfon olew neu nwy i'r rheini nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy.

17. Fe wnaethom lansio ein cynllun Cartrefi Cynnes newydd gwerth £30m y flwyddyn ar 1 Ebrill. Bydd yn parhau i weithredu fel prif fecanwaith Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd i berchnogion tai ac aelwydydd sy'n rhentu gan landlordiaid preifat.

18. Nod y cynllun Cartrefi Cynnes yw lleihau nifer yr aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn cartrefi oer a llaith drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni a datrysiadau gwresogi carbon isel. Bydd yn defnyddio dull gweithredu sy'n ystyried gwneuthuriad carbon isel yn gyntaf, i wella effeithlonrwydd ynni hirdymor yr aelwydydd incwm isel lleiaf effeithlon yn thermol yng Nghymru. Bydd aelwydydd cymwys yn cael mesur pwrpasol o becynnau i inswleiddio a datgarboneiddio eu cartref, gan arwain at ostyngiad yn eu biliau ynni i'w symud allan o dlodi tanwydd.

19. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'n contractwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan alw yn ategu cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eraill, i gael cymaint o gyllid â phosibl i Gymru o gynlluniau ledled Prydain Fawr a sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

20. Bydd y cynllun hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor ynni cynhwysfawr i bawb yng Nghymru, gan ddarparu gwybodaeth am y camau y gall pobl eu cymryd eu hunain i leihau eu biliau ynni. Bydd ganddo rôl bwysig o ran deall amgylchiadau unigol pob aelwyd a'u cefnogi i gael mynediad at y cynllun mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.

**Tlodi plant**

21. Mae Gweinidogion y Cabinet wedi ymrwymo o hyd i ddatblygu eu polisïau drwy lens tlodi a chydraddoldeb a nodi cyfleoedd i gyflawni canlyniadau a rennir gwell ar leihau tlodi ac anghydraddoldeb yn yr hirdymor.

22. Ar 23 Ionawr 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig. Mae'r Strategaeth yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer yr hirdymor ac yn amlinellu sut byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth a gyda phartneriaid i gynyddu effaith yr ysgogiadau sydd ar gael i ni, gan gynnwys ein pwerau cynnull. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer darparu polisïau a rhaglenni sy'n cefnogi'r canlyniadau yr ydym eu heisiau ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc nawr ac yn y dyfodol.

23. Datblygwyd y Strategaeth yn dilyn ymgysylltu cyn ymgynghori â dros 3,200 o blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn ogystal ag ymgynghoriad ffurfiol. Y neges glir yn ôl oedd bod gennym yr amcanion a'r blaenoriaethau cywir ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, a dylai'r ffocws fod ar gyflawni yn eu herbyn.

24. Rydym wedi ceisio cyngor arbenigol annibynnol gan yr academydd, yr Athro Rod Hick o Brifysgol Caerdydd, i adolygu ein fframwaith monitro drafft a darparu cyngor annibynnol ar ein dangosyddion, mesurau a setiau data tlodi cenedlaethol arfaethedig i fonitro a dangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi.  Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Cyfeirio Allanol y Strategaeth Tlodi Plant i brofi’r fframwaith cyn ei gyhoeddi’n ddiweddarach eleni.

25. Byddwn yn parhau i gynhyrchu adroddiad cynnydd llawn yn erbyn y Strategaeth bob tair blynedd, fel sy’n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Bydd y diweddariad nesaf yn 2025, pan fydd y fframwaith monitro yn rhan allweddol o’r adroddiad cynnydd hwn yn ogystal â chynnwys pobl â phrofiad o fyw, a phlant a phobl ifanc, a fydd yn rhoi gwybod i ni a ydym yn cyflawni cynnydd yn erbyn y Strategaeth.

**<u>Siarter Budd-daliadau</u>**

26. Mae’r dull gweithredu ar gyfer rhoi Siarter Budd-daliadau Cymru ar waith yn ddull gweithredu cydweithredol, fesul cam, fel y cytunwyd gan Gyngor Partneriaeth Cymru. Sefydlwyd grŵp llywio i ddatblygu a goruchwylio cynllun gweithredu a fydd yn troi ymrwymiadau’r Siarter yn gamau gweithredu ymarferol. Gan adlewyrchu natur gyfunol yr uchelgais ar gyfer dylunio a darparu Budd-daliadau Cymru sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, cafodd aelodau’r grŵp llywio eu dewis yn ofalus i sicrhau presenoldeb cryf gan Lywodraeth Leol ynghyd â sefydliadau’r Trydydd Sector, gyda phrofiad o gefnogi pobl sy’n hawlio budd-daliadau ac arbenigwyr wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau cynllun gweithredu sy’n gyraeddadwy ac yn ymarferol o ran sicrhau bod unigolion yn cael eu hawliau ariannol fel blaenoriaeth.

27. Bydd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar dair mantais allweddol (Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim a Grant Hanfodion Ysgolion) gan ein galluogi i adeiladu ar arferion da presennol, datblygu atebion hyblyg sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a nodi cyfleoedd a risgiau cyn i ni gyflwyno rhagor o daliadau a Budd-daliadau Cymru.

28. Mae Siarter Budd-daliadau Cymru yn cynnwys ymrwymiadau sy’n ymwneud â chynllunio a darparu Budd-daliadau i Gymru, sy’n golygu ei bod yn berthnasol yn bennaf i Awdurdodau Lleol ac nid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd gan gyrff cyhoeddus eraill rôl allweddol i’w chwarae o ran annog pobl i fanteisio ar eu hawliau ariannol hyd yn oed os nad ydynt wedi ymrwymo i’r ymrwymiadau yn y Siarter eto.

29. Mae CLILC ac awdurdodau lleol wedi bod yn gysylltiedig ar bob lefel ym mhob cam o’r broses o ddatblygu Siarter Budd-daliadau Cymru. Roedd pob un o’r 22 o Arweinwyr awdurdodau lleol wedi cymeradwyo a llofnodi’r Siarter yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 ac mae holl Brif Weithredwyr awdurdodau lleol wedi enwebu Uwch-swyddog Cyfrifol i yrru’r gwaith yn ei flaen yn eu hawdurdod eu hunain. Drwy’r dull cydweithredol cryf hwn, mae Awdurdodau Lleol yn dangos eu hymrwymiad i gyflawni’r gwelliannau i’r ffordd y gweinyddir budd-daliadau yng Nghymru a chyflawni’r canlyniadau yn y Siarter.

**Adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

30. Mae teuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ymysg y bobl sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf mewn cymdeithas ac yn wynebu anghydraddoldeb sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn holl argymhellion yr adroddiad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd pedwar o'r argymhellion i fod i gael eu cwblhau o fewn mis i'w cyhoeddi, mae'r rhain i gyd wedi'u cwblhau ac mae swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael gwybod.

31. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r ddau argymhelliad arall erbyn 21 Gorffennaf a 21 Hydref yn y drefn honno.

32. Er bod oedi wedi bod wrth gymeradwyo Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr Cylch 2 Awdurdodau Lleol, mae Asesiadau Cylch 2 Sir Ddinbych a Chonwy wedi'u cymeradwyo. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o hyd i ddiwallu unrhyw angen sydd heb ei ddiwallu ac sydd wedi'i nodi yn eu Hasesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr presennol. Hyd yma, mae 13 o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr Cylch 2 wedi cael eu cymeradwyo.

33. Mae swyddogion wrthi'n cyflwyno rhaglen graffu i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'u darpariaethau safle yn eu hardaloedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014.

34. Er mwyn gwella ansawdd bywyd teuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, mae £3.44 miliwn ar gael ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn 2024/25. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r grant i gefnogi datblygiad safle. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr, a gwariant cyfalaf arall sy'n gysylltiedig â gwella safleoedd yn ogystal â chyllido naill ai safleoedd preswyl neu safleoedd tramwy.

35. Mae'r cyfnod bidio cyntaf ar gyfer grantiau cyfalaf wedi dod i ben erbyn hyn ac mae swyddogion yn ystyried yr holl geisiadau. Derbyniwyd pum cais yn y cyfnod bidio cyntaf. Bydd disgwyl i bob cais egluro sut bydd y datblygiad yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr'. Mae swyddogion yn parhau i sicrhau bod Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i ddiwallu'r angen a nodwyd yn eu Hasesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, ac o'r grant. Bydd ail gyfnod ymgeisio yn agor yn yr wythnosau nesaf.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon